Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2018

Enw'r Elusen: Cymdethas Côr Meibion Caerfyrddin
Rhif cofrestredig: 259482
Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd (Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)
Ymddiriedolwyr:

Dewi Jones (Cadeirydd)
Dai Lewis (Is- Gadeirydd)
Steve Thomas (Trysorydd)
Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:
Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2018

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y côr yn ystod 2018

Swyddogion.

Ymddiswyddodd Dylan Jones (T1) fel Trysorydd ar ôl cyfnod maith o wasanaeth clodwiw, ac etholwyd Steve Thomas (B2) yn Drysorydd yn ei le. Cytunodd Dylan i barhau fel Rheolwr Llwyfan.

Mynegodd Wyn Evans (B2) ei ddymuniad i beidio parhau fel Is-Gadeirydd o achos afiechyd. Etholwyd Dai Lewis (B2) yn Is-Gadeirydd yn ei le ym mis Medi 2018.

Aelodaeth

Ni bu newid yn y tâl aelodaeeth ar gyfer 2018. (£120 y pen)

Collwyd James Kettle (B1) fel aelod, ond gobeithiwn ei weld nôl gyda ni eto, pan fydd ei amgylchiadau yn caniatau.

Derbyniwyd tri aelod newydd i'r côr: Mike Brown o Lanfihangel ar Arth, Tristram Davies o Abergwili ac Alan 'Cash' Evans (o fis Medi ymlaen) o Drefechan. Bu Mike yn ffyddlon iawn ei bresenoldeb gydol y flwyddyn. Ar ôl genedigaeth ei blentyn cyntaf, ni allodd Tristram ddod i'r ymarferion o achos dyletswyddau teuluol. Serch hynny rydym yn gobeithio y daw nôl atom yn 2019. Daeth Alan i'r ymarferion yn gyson ar ôl iddo ddechrau ym mis Medi.

Bu Iori Jones (T1) yn absennol y rhan fwyaf o'r flwyddyn o achos salwch difrifiol, ac yn y diwedd, marwolaeth ei bartner.

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2018 yw 38.

Presenoldeb

Tua 26 oedd nifer aelodau'r côr oedd yn bresennol yn y practis wythnosol yn weddol gyson.
O ran y nifer yn y perfformiadau, roedd rhwng 20 a 26 yn bresennol fel arfer. Roedd 29 o gantorion ar y llwyfan ar gyfer y Gyngerdd Datlu ar y 13eg o Hydref.

Cyngherddau

Uchafbwynt y flwyddyn oedd y Cyngerdd Dathlu 60 mlynedd yn Theatr y Lyric ym mis Hydref. Er gwaethaf y tywydd ofnadwy (llifogydd difrifol yn nhref Caerfyrddin a'r cyffiniau) llwyddwyd i gael cynulleidfa dda yn y Lyric. Roedd ein côr yn canu fel Côr Unedig gyda Chorau Meibion Mynydd Mawr, Dyffryn Aman, Dyffryn Tywi a Phorth Tywyn. Unawdwyr y noson oedd Trystan Llyr (Tenor) a Jessica Robinson (soprano), a'r cyfeilydd gwâdd oedd Meirion Wynn Jones. Arweiniwyd y noson gan Garry Owen (BBC). Yn ôl yr adborth a dderbyniwyd gan bobol yn y gynulleidfa, mwynheuodd pawb y gyngerdd. Gwnaethpwyd tua £4000 o elw. Cyfrannodd Llywydd y noson, Mr Brian Jones, Castell Howell, swm sylweddol at y noson.

Yn ychwanegol, cynhaliwyd cyngerdd ar Rheilffordd Gwili o dan nawdd Croeso Sir Gâr ar gyfer ymwelwyr, ym mis Mehefin.

Ym mis Rhagfyr, unodd y côr gyda Chôr Meibion Porth Tywyn mewn cyngerdd yn Eglwys y Santes Fair, Porth Tywyn i godi arian at RNLI o dan arweiniad Wyn Maskell, lle roedd yr unawdwyr Elin Manahan Thomas ac Osian Wyn Bowen hefyd yn cymryd rhan.

Priodasau

Trwy ganu mewn 5 priodas yn ystod y flwyddyn, codwyd arian sylweddol ar gyfer y côr. Cafodd ein perfformiadau dderbyniad da yn y priodasau.
Ebrill - English Baptist - Peter Davies (B1) a Pat
Awst - Capel Abergwili. (Angharad Eynon)
Awst - Eglwys Llangynnwr (Emily James)
Hydref - Llanrhidian (Michelle Lawlor)
Tachwedd- Eglwys Pontargothi (Georgia Reed)

Angladd

Canodd y côr yn angladd Mr Ken Davies, Clunderwen ar y 6ed o Oerffennaf.

Elusennau

Gan fod ochr ariannol y côr yn iach, penderfynwyd rhoi £250 i elusen gwahanol ym mhob cwarter o 2Q ymlaen
2Q -Eiriol £250
3Q Ysbyty Treforys £250
4Q Llyfrau Llafar. £250

Yn ogystal, perfformiwyd yn y digwyddiadau canlynol i godi arian at elusennau:
Alzheimers - Rhodfa Santes Catrin (tro goleuadau Nadolig ymlaen)
Tenovus - Eglwys Crist (cyngerdd Nadolig)
Ysbyty Glangwili - Day's a M&S - £200. (casgliadau adeg y Nadolig, a'r cor yn gwneud y swm lan i £200)
Plygain MyW - Cymorth Cristnogol - £60

Cymdeithasol

Noson Pei a Stwnsh yng Nghlwb y Cwins ym mis Mawrth
Tê ar Rheilffordd Gwili - Mai
Prynhawn yn y Rake and Riddle, Penclawdd ar y ffordd nôl o briodas Llanrhidian mewn bws- mis Hydref
Cinio Dathlu 60 mlynedd yng Ngwesty'r Hebog ym mis Tachwedd. Cyflwynwyd platiau am wasanaeth hir i'r cor i'r aelodau oedd wedi rhoi dros 25 mlynedd o wasanaeth.

Repertoire

Ychwanegwyd un darn newydd i repertoire y côr yn 2018: Hafan Gobaith, yn ogystal ag ail-gyfarwyddo a rhai darnau o'r gorffennol i'w canu yn y Cyngerdd Datlu: Amen (this Little Light of Mine), Dashenka, Mae repertoire y côr wedi ei restru ar wefan y côr.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegi eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.